

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DWEUD DY DDWEUD

# PECYN CYMORTH CYFATHREBU I RANDDEILIAID

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| CYFLWYNIAD | 3 |
| COPI AR GYFER GWEFAN | 4 |
| TEMPLED E-FWLETIN | 5 |
| POSTER | 6 |
| NEGESEUON AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL | 7 |
| CYNNWYS CYFRYNGAU CYMDEITHASOL | 12 |
| CYSYLLTIADAU | 13 |

# CYFLWYNIAD

## RYDYM NI I GYD AM WELD NEWID CADARNHAOL YNG NGHYMRU.

Ond er mwyn i ddemocratiaeth yng Nghymru weithio i bawb, mae angen i fwy gymryd rhan. Eleni, am y tro cyntaf, bydd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn gallu pleidleisio yn etholiadau'r Senedd.

Rydym am i'r bobl ifanc hynny, a phawb arall y mae penderfyniadau democrataidd yng Nghymru yn effeithio arnynt, gael cyfle i leisio'u barn drwy gymryd rhan yn nemocratiaeth Cymru. Dyna yw pwrpas yr ymgyrch 'Dweud dy Ddweud'.

Rydym ni'n galw ar bobl Cymru i fynegi eu barn yn groyw a gweithredu i helpu i greu newid cadarnhaol yn y meysydd sy'n bwysig iddyn nhw, drwy...

- Bleidleisio yn etholiadau'r Senedd
- Dechrau deiseb
- Rhannu eu barn ar ymgynghoriad
- Cysylltu â'u cynrychiolwyr etholedig
- Neu hyd yn oed sefyll mewn etholiad eu hunain

**Dyna sut y gallwch chi helpu.**

Mae'r pecyn cyfathrebu hwn yn cynnwys popeth sydd ei angen arnoch i'n helpu i gyfleu'r neges i gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli a'u hannog i gymryd rhan mewn democratiaeth yng Nghymru – o gopi ar gyfer eich gwefan i dempled e-fwletin a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.

Diolch i chi am gefnogi ein hymgyrch. Gyda'n gilydd gallwn helpu pobl Cymru i fynegi eu barn yn groyw a chael dylanwad.

# COPI AR GYFER GWEFAN

*Mae'r copi canlynol wedi cael ei ddrafftio er mwyn i chi ei lwytho ar eich gwefan, ei gynnwys yn eich cylchlythyr rheolaidd neu ei lwytho ar fewnrwyd eich cwmni. Mae croeso i chi ddiwygio neu addasu'r copi hwn yn ôl yr angen i sicrhau ei fod yn gweddu i'r gynulleidfa.*

## GYMRY, LLEISIWCH EICH BARN, ER LLES PAWB.

Yn **[ENW CWMNI]**, rydym ni'n falch o ymuno â Llywodraeth Cymru i alw ar ragor o bobl ledled Cymru i gofleidio democratiaeth a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

Rydym ni i gyd am weld newid cadarnhaol yng Nghymru. Ond, er mwyn i ddemocratiaeth yng Nghymru weithio i bawb, mae angen i fwy o bobl gymryd rhan.

Ac er nad oes pwrpas cwyno wrth eich ci am y sbwriel yn y stryd – ac er nad yw grwgnach o flaen eich cyfrifiadur yn mynd i gynyddu cyfleoedd gwaith yn lleol – mae digon o bethau cadarnhaol y gellir eu gwneud a fydd yn gwneud gwahaniaeth.

O bleidleisio yn etholiadau'r Senedd i gysylltu â'ch cynrychiolwyr neu lofnodi neu ddechrau deiseb, mae llawer o ffyrdd y gallwch chi gymryd rhan. Gallech hyd yn oed sefyll mewn etholiad i gynrychioli eich cymuned.

Dewch i wybod mwy am sut y gallwch chi leisio eich barn, er lles pawb. Ewch i: **llyw.cymru/dweud-dy-ddweud**

# TEMPLED E-FWLETIN

*Rydym wedi paratoi'r e-fwletin canlynol i chi ei anfon i'r cyfeiriadau yn eich rhestrau postio yn fewnol ac yn allanol.*

**Pwnc:** *Gymry, lleisiwch eich barn, er lles pawb*

## GYMRY, LLEISIWCH EICH BARN, ER LLES PAWB .

Rydym ni i gyd am weld newid cadarnhaol yng Nghymru. Ond, er mwyn i ddemocratiaeth yng Nghymru weithio i bawb, mae angen i fwy o bobl gymryd rhan.

Dyna pam rydyn ni'n falch o ymuno â Llywodraeth Cymru i alw ar ragor o bobl ledled Cymru i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.


Ac er nad oes pwrpas cwyno wrth eich ci am y sbwriel yn y stryd – ac er nad yw grwgnach o flaen eich cyfrifiadur yn mynd i gynyddu cyfleoedd gwaith yn lleol – mae digon o bethau cadarnhaol y gellir eu gwneud a fydd yn gwneud gwahaniaeth.


O bleidleisio yn etholiadau'r Senedd i gysylltu â'ch cynrychiolwyr neu lofnodi neu ddechrau deiseb, mae llawer o ffyrdd y gallwch chi gymryd rhan. Gallech hyd yn oed sefyll mewn etholiad i gynrychioli eich cymuned.

Dewch i wybod mwy am sut y gallwch chi leisio eich barn, er lles pawb. Ewch i: **llyw.cymru/dweud-dy-ddweud**

# POSTER

*Rydym ni wedi creu posteri i chi eu hargraffu a'u harddangos mewn unrhyw adeilad agored. Os ydych chi wedi symud ar-lein, gallech eu defnyddio ar eich gwefan neu eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol.*



# NEGESEUON AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

*Rydym ni wedi paratoi negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i chi eu defnyddio. Mae croeso i chi ddewis a dethol negeseuon a fydd yn taro tant gyda'ch cynulleidfa a'u diwygio yn ôl yr angen.*

**Facebook –**

NEGES NEWYDD

ADNEWYDDU DEMOCRATIAETH
2 HRS

A oes gennyt ti farn am sut i wella pethau yng Nghymru? 🤔

Rydyn ni'n ymuno â Llywodraeth Cymru i alw ar bobl ledled Cymru i leisio eu barn yn groyw drwy gymryd rhan mewn democratiaeth 🙌

Gwna'n siŵr bod dy lais yn cael ei glywed, cer i: **llyw.cymru/dweud-dy-ddweud**

HOFFI SYLW RHANNU

NEGES NEWYDD

ADNEWYDDU DEMOCRATIAETH
2 HRS

❎ MYTH: Mae cymryd rhan mewn democratiaeth yn golygu sefyll mewn etholiad.

✅FFAITH: Mae llawer o bethau cadarnhaol y galli di eu gwneud i gymryd rhan mewn democratiaeth yng Nghymru, o bleidleisio yn etholiadau'r Senedd, llofnodi a dechrau deiseb i ysgrifennu at dy Gynghorydd lleol.

I ddysgu mwy, a chymryd rhan 👇
**llyw.cymru/dweud-dy-ddweud**

HOFFI SYLW RHANNU

# NEGESEUON AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

*Rydym ni wedi paratoi negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i chi eu defnyddio. Mae croeso i chi ddewis a dethol negeseuon a fydd yn taro tant gyda'ch cynulleidfa a'u diwygio yn ôl yr angen.*

**Facebook –**

NEGES NEWYDD

ADNEWYDDU DEMOCRATIAETH
2 HRS

Dydy grwgnach dros dy frecwast ddim yn mynd i wella'r parc lleol, ond efallai y bydd sgwrs gyda dy Gynghorydd lleol yn helpu. 🙋

Os oes rhywbeth yr hoffet ti ei newid yn dy gymuned, gallai gwleidyddiaeth gynnig ateb.

Lleisia dy farn er lles pawb. Cer i **llyw.cymru/dweud-dy-ddweud**

HOFFI SYLW RHANNU

NEGES NEWYDD

ADNEWYDDU DEMOCRATIAETH
2 HRS

📢 Galw ar bobl ifanc 16 ac 17 oed yng Nghymru 📢

Oeddet ti'n gwybod y galli di bleidleisio yn etholiadau'r Senedd am y tro cyntaf eleni?

Rydyn ni'n ymuno â Llywodraeth Cymru i alw ar bobl ifanc ledled Cymru i leisio eu barn er lles pawb a chymryd rhan mewn democratiaeth.

Dysgu mwy 👇
**llyw.cymru/dweud-dy-ddweud**

HOFFI SYLW RHANNU

# NEGESEUON AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

*Rydym ni wedi paratoi negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i chi eu defnyddio. Mae croeso i chi ddewis a dethol negeseuon a fydd yn taro tant gyda'ch cynulleidfa a'u diwygio yn ôl yr angen.*

**Facebook –**

NEGES NEWYDD

ADNEWYDDU DEMOCRATIAETH
2 HRS

Mae yna lawer o bethau y gall pob un ohonom eu gwneud i wneud newidiadau cadarnhaol yng Nghymru...

- 🗳️ pleidleisio yn etholiadau'r Senedd
- ✏️ dechrau neu lofnodi deiseb am bwnc sy'n agos at dy galon
- 💬 siarad â'th gynrychiolwyr etholedig i fynegi pryder
- 👍 sefyll mewn etholiad dy hun

I ddysgu mwy a chymryd rhan:
**llyw.cymru/dweud-dy-ddweud**

HOFFI SYLW RHANNU

# NEGESEUON AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

*Rydym ni wedi paratoi negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i chi eu defnyddio. Mae croeso i chi ddewis a dethol negeseuon a fydd yn taro tant gyda'ch cynulleidfa a'u diwygio yn ôl yr angen.*

**Twitter –**

TRYDARIAD NEWYDD

Sut wyt ti'n meddwl y gellir gwella pethau yng Nghymru? 🤔

Rydyn ni'n ymuno â @Llywodraeth Cym i alw ar bobl ledled Cymru i leisio eu barn er lles pawb drwy gymryd rhan mewn democratiaeth 🙌

Lleisia dy farn 👇

**llyw.cymru/dweud-dy-ddweud**

37 TRYDAR

TRYDARIAD NEWYDD

❎ MYTH: Mae cymryd rhan mewn democratiaeth yn golygu sefyll mewn etholiad.

✅ FFAITH: Mae yna lawer o bethau cadarnhaol y galli di eu gwneud i gymryd rhan.

Rhagor o wybodaeth 👇

**llyw.cymru/dweud-dy-ddweud**

31 TRYDAR

TRYDARIAD NEWYDD

Dydy grwgnach dros dy frecwast ddim yn mynd i wella'r parc lleol, ond efallai y bydd sgwrs gyda dy Gynghorydd lleol yn helpu. 🙋

Sut alli di wneud newid cadarnhaol yn dy gymuned:

**gov.wales/use-your-views**

31 TRYDAR

TRYDARIAD NEWYDD

📢 Galw ar bobl ifanc 16 ac 17 oed yng Nghymru 📢

Oeddet ti'n gwybod y galli di bleidleisio yn etholiadau'r Senedd am y tro cyntaf eleni?

Lleisio dy farn er lles pawb 👇

**llyw.cymru/dweud-dy-ddweud**

31 TRYDAR

# NEGESEUON AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

*Rydym ni wedi paratoi negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i chi eu defnyddio. Mae croeso i chi ddewis a dethol negeseuon a fydd yn taro tant gyda'ch cynulleidfa a'u diwygio yn ôl yr angen.*

**Twitter –**

**TRYDARIAD NEWYDD**

Gall pob un ohonom wneud llawer o bethau i wneud newidiadau cadarnhaol yng Nghymru...

🗳️ pleidleisio mewn etholiad

✏️ dechrau neu lofnodi deiseb

💬 siarad â'th gynrychiolwyr etholedig

👍 sefyll mewn etholiad dy hun

I ddysgu mwy 👇

**llyw.cymru/dweud-dy-ddweud**

34 TRYDAR

# CYNNWYS AR GYFER Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

*Rydym ni wedi creu amrediad o gynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i gyd-fynd â'r negeseuon, sydd yn eich pecyn.*













Llywodraeth Cymru
Welsh Government
OS OES GENNYCH UNRHYW GWESTIYNAU AM YR YMGYRCH NEU OS HOFFECH GAEL RHAGOR O WYBODAETH,
CYSYLLTWCH Â
ADRIAN.DEVEREUX@GOV.WALES